

Chwefror - Mawrth 2020 rhifyn 124



£2

# lingo

newydd



## Beth mae Emma Walford yn hoffi?



Dathlu  
Dewi Sant



# EICH TUDALEN CHI

Cyfle i roi barn a dweud eich stori!

## Annwyl lingo newydd,

Dw i'n ysgrifennu am fy nghwrs haf yn Wrecsam y llynedd.

Roeddwn i ar y cwrs haf yng Ngholeg Cambria ym mis Gorffennaf ac mi ges i brofiad diddorol yn ystod yr wythnos.

Mi ddysgais i lawer o eiriau newydd wrth edrych ar dipyn o hanes Cymru. Mi wnaethon ni edrych ar eiriau fel "calon". Mi ges i syndod i ddysgu cymaint o wahanol ffyrdd dyn ni'n defnyddio'r gair "calon" yn fasnachol.

Mi gawson ni lawer o hwyl gyda phrosiect bach yn y dosbarth lle roedd rhaid i ni gyfathrebu â'n gilydd. Peth pwysig arall oedd cyfathrebu â phobl o lefydd tu allan i Gymru oedd wedi dod ar y cwrs i ddysgu Cymraeg.

Roedd dysgu am storïau'r Mabinogi yn bleser ar y diwrnod olaf. Cyn hyn, mi wnaethon ni ddarllen yr erthygl yn **lingo newydd** am y sioe oedd ar daith drwy Gymru.

Cawson ni flas bach o'r sioe gyda'r bardd Dafydd ap Gwilym ac wedyn cawson ni gyfle i ddysgu dawnsio gwerin hefyd.

Roedd y profiad dros yr wythnos yn bleserus ac yn ddefnyddiol iawn. Dw i'n edrych ymlaen at gyrsiau tebyg yn y dyfodol.

Sara Jones, Johnstown, Wrecsam

### Geiriau

cyfle – opportunity  
syndod – surprise  
cymaint – how many  
yn fasnachol – commercially  
cyfathrebu â'n gilydd – (to) communicate with each other  
oedd wedi dod – who had come

## Annwyl lingo newydd,

Penderfynon ni fynd i Lydaw ar ein gwyliau haf teuluol y llynedd. Teithion ni ar y fferi o Portsmouth i St Malo ac yna gyrron ni trwy Lydaw i Port de Doëlan, ychydig i'r de o Concarneau.

Roeddwn i, fel dysgwr Cymraeg, yn edrych ymlaen at weld a chlywed yr iaith Lydaweg a gweld enghreifftiau eraill o dreftadaeth Geltaidd.

Ar y daith i lawr, wnaethon ni yrru i dre Tréhorentec er mwyn ymweld â Choedwig Brocéliande. Dyma beth sy ar ôl o'r goedwig helaeth oedd yn gorchuddio Llydaw yn yr hen amser. Yn ôl y chwedl, hon oedd coedwig y Brenin Arthur. Aethon ni am dro trwy'r Val Sans Retour - "Cwm Dim Dychwelyd" - a gwelon ni'r "Goeden Euraidd"!

Mae Port de Doëlan ei hun yn harbwr hardd gyda chychod lliwgar, dau oleudy (un yn wyrdd a'r llall yn goch) a llwybrau arfordirol hyfryd sy'n arwain at gilfachau a thraethau diarffordd. Roedd y bwyd môr lleol yn flus iawn, iawn.


Dechreuais i siarad â sawl person am yr iaith Lydaweg ac roedd darganfod rhai geiriau tebyg rhwng Cymraeg a Llydaweg yn hynod

ddiddorol.

Enghraifft dda o hyn ydy enw'r faner Llydaweg, y "Gwenn ha du" (gwyn a du).

Enghraifft arall ydy'r ymadrodd defnyddiol pan rydych chi'n mwynhau gwyr o seidr Llydaweg - "Yec'hed mat!" (lechyd da!) (Mae 'mad' yn hen air Cymraeg am 'da' – Gol.)

Edward Moncrief,  
Marchnad Harborough, Lloegr



### Geiriau

treftadaeth – heritage  
helaeth – extensive  
gorchuddio – (to) cover  
cilfach,-au – inlet,-s; cove,-s  
diarffordd – remote

Dych chi'n hoffi mynd i gerdded?  
Ewch i dudalen 18 i weld colofn newydd Brân Devey o Ramblers Cymru.  
Neu beth am ysgrifennu at **lingo newydd** i ddweud ble dych chi'n hoffi mynd i gerdded?

Dyma'r cyfeiriad:  
**lingo newydd**  
d/o Golwg  
Blwch Post 4  
Llanbedr Pont Steffan  
Ceredigion  
SA48 7LX

### Geiriau

colofn – column

# Helo, bawb!

**M**awrth y cyntaf ydy Dydd Gŵyl Dewi. Mae llawer o bobl yn dathlu'r diwrnod yng Nghymru ac ar draws y byd. Mae rhai'n gwisgo cenhinen neu genhinen Pedr i ddathlu.

Mae'r cyflwynydd teledu, Emma Walford, yn dweud sut bydd hi'n dathlu Dydd Gŵyl Dewi ar dudalen 6.

Mae cennin yn symbol o Gymru. Mae John Addams-Williams yn tyfu cennin yn Sir Benfro. Pan maen nhw'n brysur, maen nhw'n codi tunelli o gennin bob wythnos. Mae'r stori ar dudalen 12.

Os dych chi ddim yn hoffi cennin, beth am drïo pice ar y maen gwahanol iawn? Ewch i dudalen 8 i weld beth sy'n arbennig am bice ar y maen Coalpit Welsh Cake.

Mae 2020 yn Flwyddyn yr Awyr Agored, meddai Croeso Cymru. Os dych chi isie mynd allan i gael awyr iach, mae Rhiannon Munro o'r RSPB yn dweud beth sy i'w weld yng Ngwarchodfa Natur Gwlyptiroedd Casnewydd (tudalen 10).

Mae Brân Devey o Ramblers Cymru yn dechrau colofn newydd gydag awgrymiadau am lefydd braf i fynd i gerdded – ar dudalen 18.

Ble bynnag dych chi, Dydd Gŵyl Dewi Hapus!

## Dydd Gŵyl Dewi Hapus!

### Geiriau

tyfu – (to) grow  
tunnell, tunelli – ton,-s

**pice ar y maen** = **cacennau cri** – Welsh cakes  
awyr iach – fresh air

Gwarchodfa Natur Gwlyptiroedd Casnewydd – Newport Wetlands Reserve  
ble bynnag – wherever

# Cynnwys

## Chwefror – Mawrth 2020

- 2 **Helo, bawb!**
- 3 **Eich tudalen chi – dau lythyr**
- 4 **Cyfoes – 'Rhaid dathlu Dydd Gŵyl Dewi!'**
- 5 **Trysorau Cymru**  
– John Rees yn trafod cwiltiau Cymreig
- 6 **Dw i'n hoffi... y cyflwynydd,**  
Emma Walford, yn dewis ei hoff bethau
- 8 **Rhywbeth bach**  
– pice ar y maen gwahanol iawn!
- 10 **Blwyddyn Awyr Agored**  
– Beth sy yng Ngwarchodfa Natur Gwlyptiroedd Casnewydd?
- 12 **Bwyd a rysâit**  
– Mae John Addams-Williams yn tyfu cennin yn Sir Benfro.
- 14 **Dros y Byd – Bryn Jones yng Ngwlad Pwyl**
- 15 **Natur gyda Bethan Wyn Jones**  
– y planhigyn dulys
- 16 **Ar y bocs – cyfres newydd o'r ddrاما Bang**
- 18 **Crwydro Cymru – colofn newydd Brân Devey o Ramblers Cymru**
- 19 **Croesair ac idiom Mumph**



### Geiriau

dathlu – (to) celebrate  
trafod – (to) discuss  
cwilt,-iau – quilt,-s  
cyflwynydd – presenter  
**pice ar y maen** =  
**cacennau cri** – Welsh cakes

gwahanol – different  
Gwarchodfa Natur  
Gwlyptiroedd Casnewydd  
– Newport Wetlands Reserve  
tyfu – (to) grow  
cenhinen, cennin – leek,-s

Sir Benfro – Pembrokeshire  
Gwlad Pwyl – Poland  
planhigyn – plant  
dulys – Alexanders  
cyfres – series

## Lliwiau lingo newydd

**Lliwiau lingo newydd** Mae cod lliwiau i'ch helpu chi i ddarllen lingo newydd.

**1** Darllenwch y darnau melyn os dych chi'n dechrau dysgu.

**2** Darllenwch y darnau gwyrdd os dych chi'n fwy profiadol.

**3** Darllenwch y cyfan os dych chi'n brofiadol iawn.

■ Dyma liw geiriau'r De. ■ Dyma liw geiriau'r Gogledd. ■ Mae'r lliw yma i bawb.

Cyhoeddiad gan gwmni GOLWG<sup>®</sup>  
**lingo newydd**, d/o Golwg, Blwch Post 4, Llanbedr Pont Steffan,  
Ceredigion. SA48 7LX ☎ 01570 423529 ☎ 01570 423538  
✉ e-bost: [lingonewydd@golwg.com](mailto:lingonewydd@golwg.com)  
Cyfranwyr: Bethan Lloyd, Dylan Iorwerth, Ela Mars Jones,  
Mumph, Bethan Wyn Jones, John Rees

Llun clawr: Emma Walford  
Llun: S4C

Dych chi'n dathlu Dydd Gŵyl Dewi? Ydy pobl Cymru yn gwneud digon i ddathlu'r diwrnod? Dych chi o blaid cael gŵyl banc ar y diwrnod?

# Dathlu Dewi Sant

**Y**n ystod y blynyddoedd diwetha, mae mwy a mwy o drefi Cymru yn cynnal Parêd Gŵyl Dewi – mae 22 erbyn hyn. Mae hyn yn ymgais i wneud mwy i ddathlu'r diwrnod. Dydy Cymru ddim yn gwneud digon i gofio Dewi, meddai llawer o bobl.

Rhaid i Lywodraeth Cymru wneud mwy i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi yn ôl Rhys Llewelyn, un o drefnwyr Parêd Dewi Sant Pwllheli.

“Does dim digon yn digwydd yng Nghymru,” meddai Rhys Llewelyn.

## Parêds yn “dod ag arian”

Mae Gwenno Dafydd yn byw yng Nghaerdydd.

Mae hi wedi ysgrifennu **Cenwch y Clychau i Dewi**, anthem i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi.

Mae hi'n helpu i drefnu parêd Gŵyl Dewi hefyd.

“Mae'r parêds yn dod â lot o arian i mewn i gymunedau bach. Mae parêds Dydd Gŵyl Dewi yn gallu rhoi hwb mawr i'r economi.

“Dydy'r Llywodraeth ddim yn gwybod am yr holl ddathliadau, meddai Gwenno Dafydd.

Mae hi wedi cyfarfod â swyddogion Llywodraeth Cymru i siarad am hyn.

Mae hi'n mynd i gyfarfod â'r corff twristiaeth, Croeso Cymru, hefyd.

## Geiriau

dathlu – (to) celebrate  
 digon – enough  
 o blaid – in favour of  
 gŵyl banc – bank holiday  
 diwetha – last  
 cynnal – (to) hold  
 ymgais – attempt  
 yn ôl – according to  
 trefnydd, trefnwyr – organizer,-s  
 cymuned,-au – community, communities  
 hwb – boost  
 dathliad,-au – celebration,-s  
 swyddog,-ion – officer,-s; official,-s



## Gŵyl gyhoeddus?

**M**ae angen gŵyl banc ar Ddydd Gŵyl Dewi, meddai Rhys Llewelyn.

“Dydy pobl sy mewn swyddi uchel yng Nghymru ddim yn gwybod am dwf y Parêds – dyna'r broblem fawr.”

Mae o'n edrych ymlaen at weld beth fydd ‘Visit Wales’ yn ei gynnig.

Oes mwy o ddiddordeb mewn dathlu Gŵyl Dewi erbyn hyn?

“Oes yn sicr,” meddai Rhys Llewelyn.

“Dw i'n clywed yn aml am fwy a mwy o bobl sy isio dathlu eu Cymreictod. Beth gwell na chael parêd lliwgar?”

Mae llawer o wledydd eraill yn cynnal parêd ar eu diwrnod cenedlaethol. Mae pobl Iwerddon yn cynnal llawer o barêds ar Ddydd Sant Padrig – yn Iwerddon ac ar draws y byd.

## Parêd Dewi Sant

### Dych chi'n dathlu Dydd Gŵyl Dewi?

“Mae'n bwysig dathlu Dydd Gŵyl Dewi,” yn ôl Rhys Llewelyn. Mae e'n trefnu Parêd Dewi Sant ym Mhwwllheli.

Mae pobl yn gorymdeithio drwy'r dref gyda baneri.

Erbyn hyn, mae llawer o bobl yn trefnu parêds i ddathlu Gŵyl Dewi – mae 22 pared yng Nghymru.

“Mae parêds Gŵyl Dewi yn gallu helpu'r economi,” yn ôl Gwenno Dafydd. Mae hi'n helpu i drefnu parêd yng Nghaerdydd.

Rhaid i Lywodraeth Cymru wneud mwy, meddai hi.

## Geiriau

dathlu – (to) celebrate  
 pwysig – important  
 yn ôl – according to  
 trefnu – (to) organize  
 gorymdeithio – (to) march  
 erbyn hyn – by now  
 gallu – can  
 Llywodraeth Cymru – the Welsh Government  
 meddai – said

## Parêds Gŵyl Dewi

- Mae Parêd Dewi Sant Llŷn ac Eifionydd 2020 yn digwydd yn nhref Pwllheli ddydd Sadwrn, 29 Chwefror, 2020 am 11am. Mae pobl yn gorymdeithio drwy'r dref, cyn gorffen ar y Maes – y sgwâr yn y canol. Hefyd, bydd Wythnos Tapas Llŷn yn defnyddio cynnyrch lleol, gyda nifer o fwyta'i lleol yn cymryd rhan.
- Oes parêd yn eich ardal chi? Ewch i holi!



## Geiriau

gorymdeithio – (to) march  
 cyn – before  
 holi – (to) ask, enquire  
 bydd – will  
 cynnyrch – produce  
 lleol – local  
 cymryd rhan – (to) take part

Mae John Rees yn arbenigwr ar hen bethau.  
Yma, mae e'n sôn am hanes cwiltiau Cymreig...

# Y Cwilt Cymreig

## Geiriau

bod – *that*  
wedi'i gwiltio – *quilted*  
darn,-au – *piece,-s*  
defnydd – *material*  
gwlan – *wool*  
gwnio – *sewing, (to) sew*  
at ei gilydd – *(to) each other*  
Oes ... 'da chi? = Oes gennyh chi ...?  
– *Have you got ...?*  
efallai – *perhaps*

### Beth ydy cwilt?

Dau ddarn o ddefnydd gyda gwlan neu ryw beth cynnes yn y canol.  
Rhaid gwnio'r darnau at ei gilydd – dyna'r cwiltio.

### Cwiltiau Cymreig

Mae cwiltiau Cymru yn arbennig iawn.  
Dych chi wedi gweld cwilt Cymreig?  
Oes cwilt Cymreig 'da chi, efallai?



## Cwiltiau traddodiadol

Flynnyddoedd yn ôl, roedd cwiltiau'n cael eu gwneud â llaw. Weithiau, roedd y gwnio mewn llinellau syth ond, yn fwy aml, roedd y gwnio'n gwneud patrymau.

Dych chi wedi gweld cwilt o'r math yma? Efallai mewn amgueddfa neu, os dych chi'n lwcus iawn, efallai bod un yn y teulu.

Mae'r patrymau cwiltio yn perthyn i ardaloedd arbennig. Mae rhai'n unigryw. Yn aml, roedd menywod yn cwiltio mewn grwpiau ac roedd rhai'n ennill bywoliaeth wrth wneud cwiltiau.

Mae'r hen gwiltiau sy 'da ni o hyd yn dangos bod angen lefel uchel o sgil i wneud y gwaith.

Dych chi wedi gweld cwiltiau'r Amish a rhai o America? Mae angen llawer iawn o sgil i wneud y cwiltiau yma ac maen nhw'n enwog iawn. Roedd yr un lefel o sgil i'w gweld dros Gymru gyfan ar un adeg.

Yn anffodus, does dim llawer o bobl yn gwybod bod cwiltio yn draddodiad mawr yng Nghymru.

## Geiriau

amgueddfa – *museum*  
perthyn i – *(to) belong to*  
unigryw – *unique*  
menywod = merched – *women*  
ennill bywoliaeth – *(to) earn a living*  
o hyd – *still*



## Stori cwiltio Cymru

Mae hanes cwiltio Cymru yn dechrau tua 1800. Fel arfer, roedd 'na gwiltio ar bethau i gadw pobl yn gynnes yn y gaeaf, fel blancedi. Fel arfer, merched o deuluoedd cyfoethog oedd yn gwneud y rhain fel hobi. Mae eñghreifftiau o gwiltio mewn dillad fel sgertiau a rhai dillad milwyr hefyd.

Ar ôl yr 1840au, daeth defnydd rhad o Loegr. Dyma pryd daeth cwiltio yn

boblogaidd iawn. Cafodd y grefft a'r sgiliau eu datblygu dros y wlad. Dechreuodd pobl wneud clytwaith, sef defnyddio darnau bach o ddefnydd i wneud patrwm ac wedyn creu cwilt. Mae'n debyg i'r arfer o aildefnyddio ac ailgylchu heddiw.

Dych chi'n hoffi patrymau clytwaith? Maen nhw'n boblogaidd o hyd. Yng Nghymru, roedd llawer o bobl yn defnyddio lliwiau coch, du a glas. Dyna'r lliwiau

sy'n cael eu cysylltu gyda'r cwilt Cymreig.

Roedd y traddodiad o gwiltio yn fyw tan yr 20fed ganrif. Yna, gyda datblygiad diwydiant modern, dechreuodd ffatrioedd wneud cwiltiau. Roedd llawer o'r cwiltiau yn eitha rhad a dechreuodd y traddodiad farw.

## Geiriau

milwr, milwyr – *soldier,-s*  
clytwaith – *patchwork*

## Cwiltio heddiw

Dych chi'n hoffi gwnio?

Mae cyrsiau cwiltio ar gael heddiw – i ddangos i chi sut i wneud cwilt.

Mae pobl yn hoffi'r cwilt traddodiadol yn fawr, ac mae cwiltio'n dechrau dod yn ffasiynol eto.

Mae hen gwiltiau'n werth llawer o arian ac mae arddangosfeydd drwy Gymru. Os dych chi'n cael cyfle, mae'n werth mynd i weld y cwiltiau!

## Geiriau

ar gael – *available*  
traddodiadol - *traditional*  
yn werth – *worth*  
arddangosfa, arddangosfeydd – *exhibition,-s*

Mae **lingo newydd** yn gofyn i bobl beth maen nhw'n hoffi. Y tro yma, mae Emma Walford yn ateb ein cwestiynau ni. Mae hi'n cyflwyno ar y teledu ac roedd 2019 yn flwyddyn brysur iddi hi. Roedd hi'n ffilmio cyfres deledu o'r enw **Prosiect Pum Mil**. Nawr, mae cyfres arall o **Priodas Pum Mil** yn dechrau ddiwedd mis Chwefror. Mae Emma yn byw yn y Bont-faen ger Caerdydd.

# Emma Walford


## Dw i'n hoffi...

Mae **Priodas Pum Mil** ar S4C ar Nos Sul, Chwefror 23 am 8pm

### Emma, beth ydy...?

#### ...dy hoff ffilm di?

Mae gen i lot o hoff ffilmiau. Dw i'n hoffi ffilmiau James Bond a dw i'n methu aros am yr un newydd. Dw i'n hoffi unrhyw ffilm gyda'r actor Will Ferrell. Fy ffefryn ydy *Anchorman*; dw i byth yn blino ar y ffilm yna! Dw i'n mwynhau unrhyw ffilm gan Disney neu Pixar a wnes i grio yn gwyllo *Frozen 2!* Pan oedd y plant yn fach roedden ni'n hoffi ffilmiau *Shrek* ac wedyn *High School Musical*. Os oes rhaid i fi ddewis un hoff ffilm, *Dirty Dancing* ydy hi! Clatur!




#### ...dy hoff lyfr di?

Dw i'n hoffi llyfrau ditectif. Dw i'n hoffi'r gyfres *The Girl with the Dragon Tattoo* gan Stieg Larsson. Dw i'n darllen lot gan Jo Nesbo hefyd.

Dw i'n hoffi llyfrau am athroniaeth hefyd, e.e. *Sophie's World* gan Jostein Gaarder. Mae'r llyfr yma wedi creu argraff fawr arna i.

#### ...dy hoff siop di?

Dw i'n byw yn y Bont-faen a dw i'n lwcus achos mae lot o siopau bach annibynnol yma. Fy hoff siop ydy siop leol o'r enw Stwff. Mae'n gwerthu lot o anrhegion hyfryd a phethau bach neis i'r tŷ. Pan dw i'n siopa am ddillad dw i'n gwneud lot o fy siopa ar lein a dw i'n prynu lot gormod o ddillad yn Zara a Top Shop!



#### Geiriau

y tro yma – <i>this time</i>	unrhyw – <i>any</i>
cyflwyno – <i>(to) present</i>	dw i byth yn ... – <i>I never ...</i>
iddi hi – <i>for her</i>	wnes i grio – <i>I cried</i>
cyfres – <i>series</i>	clasur – <i>classic</i>
Y Bont-faen – <i>Cowbridge</i>	athroniaeth – <i>philosophy</i>
mae gen i ... = <i>mae ... 'da</i>	wedi creu argraff arna i – <i>has impressed me</i>
fi – <i>I've got ...</i>	annibynnol – <i>independent</i>
methu – <i>can't</i>	

Lili, y Labrador





Emma Walford yn ei dyngarîs yn ffilmio Prosiect Pum Mil

### ...dy hoff ddillad?

Mae'n well gen i ddillad gaeaf na dillad haf. Dw i wrth fy modd gyda siwperi a chotiau gaeaf ac mae gen i lot gormod o sgarffiau. Pan dw i'n prynu dillad dw i'n prynu ar gyfer y gwaith fel arfer. Gyda'r gyfres **Priodas Pum Mil** rhaid i fi gael rhywbeth sy'n addas ar gyfer pob priodas. Mae Trystan (Ellis-Morris, y cyflwynydd arall) yn tynnu fy nghoes am gymaint dw i'n hoffi gwisgo jumpsuits! Ers gweithio ar **Prosiect Pum Mil** dw i wedi dechrau gwisgo dyngarîs, sy'n debyg i jumpsuits!

### ...dy hoff ffordd o ymlacio?

Fy hoff ffordd o ymlacio ydy mynd â fy nghi, Lili, y labradwdl, am dro. Mae hi'n saith oed ac mae hi'n rhan bwysig iawn o fy mywyd i. Mae llefydd hyfryd i fynd am dro yn agos i'r tŷ ac mae cael treulio amser gyda Lili allan yn yr awyr agored yn fy ymlacio i'n llwyr.

### ...dy hoff fwyd?

Dw i'n rhy hoff o siocled! Siocled tywyll ydy fy ffefryn i. Dyn ni'n bwyta lot o basta yn ein tŷ ni achos mae e'n gyflym ac yn hawdd i'w goginio. Ond does dim byd yn well na chinio dydd Sul cārtref gyda llwyth o lysiau a grefi da. Er, dw i wedi dinistrio sawl pryd gyda grefi gwael.

### ...dy hoff wyliau?

Tua phedair blynedd yn ôl, fe aethon ni fel teulu ar drên i'r Eidal. Ar ôl dal yr Eurostar i Baris,

cawson ni noson yn Zurich, cyn dal trên arall i Milan. O Milan, aeth y trên â ni i Fenis am ddwy noson. Roedd e'n fendigedig – cyfle i fynd ar y gondolas a mynd i Sgwâr San Marc. Yna, trên i Fflorens, sy'n ddinas anhygoel. O Fflorens, i lawr i Rufain i weld y Colisëwm, y Fatican a chyfle i'r plant wneud pizzas eu hunain cyn hedfan adre. Dw i'n dweud wrth bawb am ddewis mynd ar drên ar eu gwyliau, mae'n ffordd hyfryd a hawdd o deithio.

### ...dy hoff olygfa?

Fy hoff olygfa ydy Castell Cricieth. Roedd Nain a Taid ar y ddwy ochr yn byw yng Nghricieth. Dw i'n cofio'r teimlad o yrru yn y car gyda Mam a Dad, a fi a fy chwaer yn ysu i fod y gynta i weld y castell! Mae Nain a Taid wedi mynd erbyn hyn ond mae'n lle hudolus i fi o hyd. Dw i'n lwcus achos dyn ni'n aros yno yn aml pan dyn ni'n ffilmio a dw i'n cael cyfle i fynd am dro bach ac i hel atgofion.

### ...dy hoff ffordd o ddathlu Dydd Gŵyl Dewi...

Ro'n i'n arfer hoffi gwisgo'r plant mewn gwisg Gymreig; does dim byd mwy ciwt na hynny! Ond mae'n anodd eu perswadio nhw i wneud hynny rŵan gan fod Anni yn 17 oed ac Efan yn 15 oed. Ond dyn ni wastad yn gwisgo cennin Pedr gyda balchder ac yn gwyllo *Cân i Gymru* bob Dydd Gŵyl Dewi.

### Geiriau

addas – suitable  
 cymaint – how much  
 dinistrio – (to) destroy  
 cyfle – opportunity  
 Rhufain – Rome  
 yn ysu i – itching to  
 hudolus – magical  
 hel atgofion – (to) reminisce  
 o hyd – still  
 wastad – always  
 balchder – pride

### Priodas Pum Mil Beth ydy'r syniad?

Dyn ni'n rhoi £5,000 i wyth cwpl sy wedi dyweddio. Mae eu teulu a'u ffrindiau nhw'n trefnu'r briodas. Dydyn nhw ddim yn cael gwario mwy na £5,000 a dydy'r cwpl ddim yn cael gwybod am y trefniadau!

### Geiriau

sy wedi dyweddio – who are engaged  
 trefnu – (to) arrange, organize  
 cael – to be allowed  
 gwario – (to) spend  
 trefniadau – arrangements

Dych chi'n hoffi pice ar y maen? Mae Michael Beynon o Coalpit Welsh Cake yn gwneud pice ar y maen ond maen nhw'n ddu!

# Pice du!

**M**ae Michael Beynon yn 24 oed ac mae e'n byw yn Rhydaman, yn Sir Gaerfyrddin. Mae e'n rhedeg busnes yn gwneud pice ar y maen.

Enw'r busnes ydy Coalpit Welsh Cake. Mae'r pice ar y maen yma'n wahanol i rai traddodiadol – maen nhw'n ddu!

Teyrnged i'r glowyr ydy hynny ac mae stori bersonol tu ôl i'r syniad. Mae hi'n stori arbennig achos mae Syndrom Down 'da Michael.

## Prosiect arbennig

Prosiect i blant gydag anghenion dysgu oedd y cam cynta. Roedd y prosiect yn edrych ar hanes glowyr yn yr ardal. Mae Michael yn hoffi hanes. Roedd ei dad-cu, ei hen dad-cu a'i hen hen dad-cu yn lowyr. Roedd Michael isie dysgu mwy amdany'n nhw.

"Ar gyfer y prosiect, y llynedd, roedden ni isie gwneud rhywbeth gyda

bwyd," meddai mam Michael, Erika Walker. "Roedd Michael yn dweud, 'Os oedd Tad-cu yn mynd â pice ar y maen i lawr i'r pwll gyda fe, mae'n rhaid bod y pice'n troi'n ddu!"

"Roedd e isie chwarae gyda lliwiau a gwneud pice ar y maen du. Rhoiodd hynny'r syniad iddo fe ddechrau busnes yn gwerthu pice ar y maen du. Arbrofon ni lot cyn cael y lliw'n iawn!" meddai Erika.

"Doedden ni ddim wedi meddwl dechrau busnes. Roedd e'n dipyn o hwyl i ddechrau ond tyfodd y syniad ac roedden ni isie cefnogi Michael."

Mae Erika yn dod o Landybïe yn wreiddiol ond roedd hi'n byw yn Ne Affrica am 29 mlynedd. Daeth hi a Michael yn ôl i Gymru i fyw yn 1999, pan oedd e'n 4 oed.



## Geiriau

pice ar y maen = *cacennau cri* – Welsh cakes  
teyrnged – *tribute*  
glöwr, glowyr – *coalminer-s*  
cam – *step*  
arbrofi – *(to) experiment*

## Y pice du

### Beth sy'n gwneud y pice ar y maen yn ddu?

"Dyn ni'n defnyddio surop arbennig o America," meddai Erika. "Dyma'r un gorau sy ar gael a dydy e ddim yn newid blas y pice ar y maen – ond mae'n ddrud i brynu. Dyn ni'n edrych am rywun sy'n gallu gwneud y surop yng Nghymru."

### Beth mae pobl yn feddwl o'r pice ar y maen du?

"Maen nhw fel Marmite! Mae pobl naill ai'n eu casáu nhw neu yn eu caru nhw!" meddai Erika. "Mae rhai pobl yn dweud, 'Dw i ddim isie bwyta cacen sy'n ddu' ond mae pobl eraill yn prynu un ac yna'n dod yn ôl am bump arall!"

z "Maen nhw'n boblogaidd iawn gyda thwristiaid. Dyn ni'n eu gwerthu nhw mewn tun ac mae hyn yn handi os dych chi'n teithio. Dych chi'n gallu defnyddio'r tun eto hefyd."



## Geiriau

surop – *syrup*  
ar gael – *available*  
naill ai ... neu ... – *either ... or ...*



**Y busnes**

Mae Michael yn gwneud y pice ar y maen mewn cegin yn y ganolfan gymunedol yn Rhydaman.

Mae e'n gwerthu'r pice mewn marchnadoedd, siopau bach ac ar wefan Coalpit Welsh Cake.

"Mae e wrth ei fodd yn mynd i'r marchnadoedd. Mae hyn yn rhoi llawer o hyder iddo fe. Mae e'n hoffi cwrdd â phobl," meddai Erika.

Nawr, maen nhw isie gwerthu'r pice ar

y maen yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, yn Llanarthne, ac ym Maes Awyr Caerdydd.

Ar gyfer Santes Dwynwen a San Ffolant maen nhw'n gwneud pice ar y maen mewn siâp calon a siâp llwyau caru.

Maen nhw'n gwneud pice gyda blasau gwahanol hefyd.

"Mae Michael yn meddwl am flasau rhyfedd iawn. Dyn ni'n dweud wrtho fe, 'Fydd y blas yna ddim yn gweithio'. Ond mae e!"

**Geiriau**

cwrdd â = cyfarfod â – (to) meet  
rhyfedd – strange



**Dyma Michael**

Mae Michael Beynon yn 24 oed.  
Mae e'n byw yn Rhydaman.  
Mae Syndrom Down 'da fe.  
Mae busnes gwneud pice ar y maen 'da fe.  
Enw'r busnes ydy Coalpit Welsh Cake.  
Mae'r pice ar y maen yn ddu!  
Mae e'n defnyddio surop o America i roi'r lliw du.  
Mae mam Michael, Erika Walker, yn helpu gyda'r busnes.

**Geiriau**

Rhydaman – Ammanford  
mae ... 'da fe = mae gynno fo ... he's got ...  
surop – syrup

**Hanes Erika Walker**

Mae Erika Walker yn dod o bentre Llandybïe, ger Rhydaman, yn wreiddiol. Cafodd hi ei geni a'i magu yno.

Roedd ei thad yn beiriannydd trydan mewn pwll glo yn Rhydaman ond wedyn cafodd e swydd gyda chwmni awyrennau yn Ne Affrica.

Yn y 1970au, pan oedd Erika yn 10 oed, symudodd y teulu i Dde Affrica i fyw. Roedd Erika yno am 29 mlynedd.

"Dw i'n cofio'r cyffro. Roedd hyn yn beth mawr i'w wneud ar y pryd," meddai Erika.

Cafodd ei mab, Michael, ei eni yn Ne Affrica. Roedd e'n 4 oed pan ddaeth y teulu yn ôl i Gymru i fyw, yn 1999.

"Dyn ni wedi bod gartre ers 20 mlynedd nawr. Dyn ni'n colli'r heulwen. Er bod

Michael wedi cael ei eni yn Ne Affrica, Rhydaman ydy ei gartref nawr," meddai Erika.

Cafodd Erika MBE yn 2015 am gynnal caffï cymunedol yn Rhydaman.

**"Er bod Michael wedi cael ei eni yn Ne Affrica, Rhydaman ydy ei gartref nawr"**

**Geiriau**

peiriannydd – engineer  
trydan – electricity  
pwll glo – coalmine  
cyffro – excitement  
heulwen – sunshine  
er bod – although

Blwyddyn Awyr Agored ydy 2020. Beth am fynd i'r awyr agored a mwynhau pethau newydd ...  
 – syniad gwyech yn ôl Rhiannon Munro.  
 Mae hi'n gweithio i Warchodfa Gwlyptiroedd Casnewydd yr RSPB ...

# Dewch i weld yr adar!

## Croeso i'r awyr agored!

**D**yech chi'n hoffi mynd am dro yn yr awyr agored?  
 Dych chi'n hoffi gweld bywyd gwyllt?  
 Dych chi'n hoffi gwyllo adar neu edrych ar y blodau a'r gwenyn?  
 Neu efallai dych chi ddim yn hoffi mynd allan pan mae'r tywydd yn wlyb!

"Os dych chi wedi treulio gormod o amser yn y tŷ dros y gaeaf, dyma'r amser i ddechrau mynd mas am dro," meddai Rhiannon Munro. Mae hi'n gweithio i Warchodfa Gwlyptiroedd Casnewydd yr RSPB. "Byddwch chi'n teimlo 100% yn well ar ôl bod mas," meddai

Mae hi'n croesawu ymwelwyr i'r warchodfa yng Nghasnewydd ac mae hi'n mynd â phlant a'u teuluoedd am deithiau cerdded.

Mae Rhiannon wrth ei bodd yn mynd â

phobl ar deithiau cerdded.

"Dych chi'n dysgu llawer, mae pawb yn gyfeillgar ac mae'n lot o hwyl," meddai. "Os ydy'r tywydd yn wael mae digon i wneud yn y ganolfan ymwelwyr. Mae caffi yma sy'n gwneud bywyd arbennig o dda. Mae'n edrych dros y llyn ac mae'n lle hyfryd i eistedd a chael coffi. Dych chi hefyd yn gallu gwyllo'r adar yn bwydo os dych chi ddim isie mentro tu fas."

## Cysylltu gyda natur

Mae'n bwysig dysgu am fyd natur meddai Rhiannon. "Mae llawer o sôn am yr argyfwng hinsawdd ar hyn o bryd. Mae'n bwysig bod pobl yn cysylltu gyda natur eto, dw i'n meddwl."

Mae cysylltu gyda natur yn help ar lefel bersonol hefyd. "Mae rhai pobl sy'n dod yma yn unig, neu maen nhw dan bwysau mawr, a dw i wrth fy modd yn cael effaith positif arny'n nhw."

"Mae dywediad 'da ni – 'gallwch chi achub natur drwy bobl a gallwch chi achub pobl drwy natur.' Mae'r lle yma'n berffaith i wneud hynny."

## Geiriau

awyr agored – *open air*  
 yn ôl – *according to*  
 Gwarchodfa Natur Gwlyptiroedd  
 Casnewydd – *Newport Wetlands Reserve*  
 gwenyn – *bees*  
 mas = *allan* – *out*  
 cyfeillgar – *friendly*  
 mentro – *(to) venture*  
 cysylltu â – *to connect with*  
 argyfwng hinsawdd – *climate emergency*  
 pwysau mawr – *great stress, a huge strain*  
 effaith – *effect*  
 dywediad – *saying*  
 gallwch chi – *you can*  
 achub – *(to) save*

## Beth sy i'w weld?

"Mae Chwefror a Mawrth yn amser diddorol. Tua diwedd mis Mawrth, dych chi'n dechrau gweld adar yn mudo ac, os dych chi'n lwcus, byddwch chi'n gweld dyfrgwn. Mae llawer o bobl yn dod yma i'w gweld nhw. Mae'n gyffrous iawn!

"Gallwch chi weld adar gwlyptir fel y gylfinir, y gornchwiglen a hwyaden yr eithin ac mae adar ysglyfaethus yma hefyd fel yr hebog tramor, y gwalch glas a bod y gwerni. Mae bod y gwerni yn eitha prin felly mae gweld un yn sbesial iawn. Mae 'na elyrch hefyd ac mae hi bob amser yn braf gweld gwyach fawr gopog.

## Adar sy'n gwneud sŵn mawr

"Os dych chi'n lwcus iawn gallwch chi weld adar y bwn. Maen nhw'n adar eitha prin ac maen nhw'n gwneud sŵn mawr pan maen nhw'n bridio. Mae'r sŵn yn cario am filltiroedd," meddai Rhiannon.

## Adar yr ardd

Mae digon o adar yr ardd yn y warchodfa hefyd, fel y nico, yr asgell fraith neu'r ji-binc, y dryw a'r titw cynffon hir – un o hoff adar Rhiannon.

## Gwenyn prin

Mae'r gadwenynen feinlais yn brin iawn. Dych chi ddim yn ei gweld hi mewn llawer o lefydd erbyn hyn ond mae Gwastadeddau Gwent yn un o'r ychydig lefydd yn y Deyrnas Unedig lle mae'r gadwenynen feinlais i'w gweld.

"Maen nhw'n edrych yn ciwt iawn. Mae rhywbeth fel boc du ar eu cefn," meddai Rhiannon Munro. "Yn ystod yr haf gallwch chi weld llawer o weision y neidr, gloynnod byw a gwyfynod hefyd."





Gylfinir

Llun: Eleanor Bennett

## Geiriau

mudo – *(to) migrate*  
 dyfrgi, dyfrgwn – *otter, -s*  
 gylfinir – *curlew*  
 cornchwiglen – *lapwing*  
 hwyaden yr eithin – *shelduck*  
 adar ysglyfaethus – *birds of prey*  
 hebog tramor – *peregrine falcon*  
 gwalch glas – *sparrowhawk*  
 bod y gwerni – *hen harrier*  
 prin – *rare*  
 alarch, elyrch – *swan, -s*  
 gwyach fawr gopog – *great crested grebe*  
 aderyn y bwn, adar y bwn – *bittern, -s*  
 nico – *goldfinch*  
 asgell fraith/ji-binc – *chaffinch*  
 dryw – *wren*  
 titw cynffon hir – *long-tailed tit*  
 cardwenynen feinlais – *shrill carder bee*  
 Gwastadeddau Gwent – *the Gwent Levels*  
 gwas, gweision y neidr – *dragon-fly, dragon-flies*  
 gloyn,-nod byw – *butterfly, butterflies*  
 gwyfyn,-od – *moth, -s*



## Dyma Warchodfa Natur Gwlyptiroedd Casnewydd

**Beth:** Gwarchodfa Natur genedlaethol Mae llawer o adar yma. Mae llawer o adar yn dod yma i nythu a bwydo.

**Ble:** Mae'r Warchodfa ar lannau afon Wysg.

**Pryd:** Agorodd y Warchodfa yn 2000.

**Pwy:** Mae partneriaeth yn rhedeg y Warchodfa:

- Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resources Wales
- Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar / RSPB
- Cyngor Dinas Casnewydd.

### Geiriau

Gwarchodfa Natur Gwlyptiroedd Casnewydd  
– Newport Wetlands Reserve  
gwarchodfa natur – nature reserve  
enedlaethol – national  
nythu – (to) nest  
bwydo – (to) feed  
glan,-nau – bank,-s  
afon Wysg – the Usk (river)  
agorodd – opened  
cyngor – council

## Dyma Rhiannon Munro

Mae Rhiannon Munro yn gweithio yng Ngwarchodfa Natur Gwlyptiroedd Casnewydd.

Roedd hi'n gweithio yn swyddfa'r RSPB yng Nghaerdydd cyn hynny. Mae gradd mewn astudiaethau

amgylcheddol 'da hi.

Sut dechreuodd ei diddordeb hi yn yr amgylchedd?

“Pan o'n i tua thair oed roedd obsesiwn 'da fi am siarcod. Ro'n i wrth fy modd gyda byd natur a'r amgylchedd.

“Pan o'n i'n 14 oed, wnes i gwrs sgwba-blymio. Wedyn, pan o'n i'n 20 oed, wnes i safio fy arian a mynd i sgwba-blymio yn Ne Affrica. Wnes i blymio mewn

cawell gyda siarcod mawr gwyn! Dw i'n dwlu arnyn nhw.

“Pan dych chi'n dod wyneb yn wyneb gyda nhw dych chi'n sylweddoli pa mor bwerus ydyn nhw. Roedd hyn yn brofiad unwaith mewn bywyd.”



Llun: iStock

### Geiriau

gradd – degree  
astudiaethau amgylcheddol  
– environmental studies  
siarc,-od – shark,-s  
amgylchedd – environment  
cawell – cage  
dwlu ar = wrth fy modd efo – (to) love  
sylweddoli – (to) realise  
pa mor bwerus – how powerful

## Dyma rai o ddigwyddiadau'r RSPB yng Nghymru:

### Gwlyptiroedd Casnewydd (01633 636363)

**Gweithdy Adnabod Rhywogaethau Pwll**

**Pryd:** 8 Mawrth 2020; 10.30yb - 12.30yp

**Pris:** Aelodau RSPB £8; eraill £10

**Taith Gerdded Gwyllo Adar y Gwanwyn**

**Pryd:** 28 Mawrth; 9.30yb - 11.30yp

**Pris:** Aelodau RSPB: £6.40; eraill: £8

Archebu ar-lein:

<https://www.eventbrite.co.uk/e/rspb-world-wetlands-day-walk-tickets-73965134709>

### RSPB Conwy (01492 584091)

**Adeiladwch eich blwch nythu eich hun!**

**Pryd:** Dydd Sadwrn, 15 Chwefror;

11yb-12.30yp a 2-3.30yp

**Pris:** £2 - £12. Mae angen bwcio.

**Taith Gerdded Adar Gwyllo y Gaeaf**

**Pryd:** Dydd Sul 16 Chwefror; 10yb-12yp

**Pris:** Aelodau £4; eraill £6. Mae angen bwcio.

### RSPB Ynys-hir (01654 700222)

**Her Bywyd Gwyllo dydd Mercher**

**Pryd:** 19 Chwefror; 1.30yp-3yp

**Beth:** Cyfle i ddod yn agos at natur

Yn addas ar gyfer plant 4-11 oed

**Pris:** Plant £4 / Oedolion £2

Rhaid archebu. Ffoniwch 01654 700222.

### Geiriau

digwyddiad,-au – event,-s  
aelod,-au – member,-s  
gweithdy – workshop  
rhywogaeth,-au – species, species  
pwll – pond, pool  
archebu – (to) order, book  
adeiladu – (to) build  
blwch nythu – nesting box  
eich ... eich hun  
– your own ...  
mae angen – (you) need  
her bywyd gwyllo – wildlife  
challenge  
cyfle – opportunity  
addas – suitable

# Cennin ... cennin ... cennin

**D**ydd Gŵyl Dewi ydy diwrnod cenedlaethol Cymru. Mae llawer o bobl yn cael cinio i ddathlu'r diwrnod ac mae un peth yn rhan o'r cinio bron bob tro – cawl cennin. Mae cennin yn dda i'r iechyd, medden nhw. Maen nhw'n symbol o Gymru hefyd.

Mae John Addams-Williams yn gweithio i gwmni Puffin Produce yn Hwlfordd, Sir Benfro. Mae e'n tyfu cennin. Mae e'n tyfu cennin ers 21 mlynedd. Pan maen nhw'n brysur iawn, maen nhw'n codi 25 tunnell o gennin bob wythnos!

## Yma, mae John Addams-Williams yn ateb cwestiynau lingo newydd ...

### Pam mae cennin mor boblogaidd?

Maen nhw'n symbol cenedlaethol – mae cennin yn agos iawn at ein calonnau ni. Maen nhw'n dda i'r iechyd hefyd a dych chi'n gallu eu coginio nhw mewn llawer o ffyrdd gwahanol.

### Pryd mae'r cyfnod mwya prysur?

Jest ar ôl y Nadolig, pan mae pobl yn dechrau gwneud cawl.

### Ble dych chi'n gwerthu'r cennin?

Dyn ni'n gwerthu cennin o dan frand Blas y Tir. Dych chi'n gallu eu prynu nhw mewn siopau mawr ar draws Cymru.

### Beth ydy'ch hoff bryd o fwyd gyda cennin?

Cawl cennin wrth gwrs!

### Ers pryd dych chi'n tyfu cennin?

Wnes i dechrau tyfu cennin yn 1999, yn East Anglia. Dyma'r tymor cyntaf i fi dyfu cennin yng Nghymru, lle ces i fy magu.

## Geiriau

cenhinen, cennin – leek,-s	always tunnell – ton	tymor – season
tyfu – (to) grow	mwya prysur – busiest	ces i fy magu – I was born
bob tro – every time,	pryd o fwyd – meal	

## Pam dych chi'n tyfu cennin?

Mae cennin yn fwyd eiconig yng Nghymru. Yn anffodus, mae llawer o archfarchnadoedd yng Nghymru yn gwerthu cennin sy wedi cael eu tyfu yn Lloegr. Roedden ni'n credu bod cyfle ardderchog i dyfu cennin yng Nghymru.

## Ydy tyfu cennin yn anodd?

Ar ôl sefydlu, dydyn nhw ddim yn

anodd iawn i dyfu. Mae cennin yn hoffi pridd ysgafn sy'n draenio'n rhwydd. Mae tywydd mwyn yn Sir Benfro ac mae hynny'n ddelfrydol ar gyfer tyfu cennin. Dyn ni'n gallu cynaeafu'r cennin o ddechrau mis Awst tan ddechrau mis Mai y flwyddyn wedyn.

## Geiriau

sefydlu – (to) establish
pridd – soil
yn rhwydd – easily
cynaeafu – (to) harvest

Dych chi'n gwisgo cenhinen ar Ddydd Gŵyl Dewi?  
Dych chi'n hoffi bwyta cennin ar Fawrth y cyntaf? Mae John Addams-Williams yn tyfu cennin yn Sir Benfro.



## Oeddech chi'n gwybod ...?

Mae'r genhinen yn symbol o Gymru. Dyn ni'n gwisgo cennin i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi.

Mae llawer o bobl yn gwisgo blodau o'r enw cennin Pedr hefyd ... ond y cennin ydy'r symbol go iawn.

Doedd pobl Oes Victoria ddim yn hoffi arogl cennin, felly aethon nhw at flodyn gydag enw tebyg!

Yn ôl y stori, mae cysylltiad gyda Dewi Sant. Mae'r stori mewn cerdd gan fardd o Loegr.

Yn ôl y gerdd, roedd y Cymry'n ymladd yn erbyn y Saeson yn y chweched ganrif.

Dywedodd Dewi wrth y Cymry: "Gwisgwch gennin yn



eich hetiau."

Mae lliwiau'r genhinen, gwyn a gwyrdd, ar faner y Ddraig Goch ac mae hen ddywediad Cymraeg yn dweud: "Gwisg genhinen yn dy gap, a gwisg hi yn dy galon".

Mae stori arall am y cennin ... Os ydy merch sengl yn rhoi cenhinen o dan ei gobennydd ar Ddydd Gŵyl Dewi ac yn mynd i gysgu, mae hi'n siŵr o gael breuddwyd am y dyn sy'n mynd i fod yn ŵr iddi hi!

## Geiriau

go iawn – real, authentic	cysylltiad – connection	dywediad – saying
arogl – smell	cerdd – poem	gobennydd – pillow
yn ôl – according to	ymladd – (to) fight	breuddwyd – dream

## Llysiâu llesol

Dyn ni'n defnyddio cennin i goginio ond roedd pobl Cymru yn defnyddio cennin i wella afiechydon amser maith yn ôl.

Maen nhw'n dda ar gyfer gwella annwyd a gwddwg tost neu ddolur gwddw, medden nhw, ac maen nhw'n help i fenywod wrth gael babi.

Mae cennin yn cynnwys llawer o fitaminau fel B6, C, haearn ac asid ffolig.

Mae gan y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig draddodiad arbennig ar Ddydd Gŵyl Dewi. Maen nhw'n bwyta cennin amrwd.

Mae cennin yn perthyn i deulu'r garllegyn – fel garlleg a winwns ond maen nhw'n fwy melys na winwns a dydy'r blas ddim mor gryf.

### Geiriau

llesol – *beneficial*  
haearn – *iron*  
Ffiwsilwyr – *Fusiliers*  
amrwd – *raw*  
perthyn i – *(to) belong/be related to*  
garllegyn – *allium*



## Rysâit

### Cennin, tatws a chyw iâr yn y ffwrn

Dyma rysâit syml – gwych ar gyfer wythnos brysur!  
Mae'r rysâit yma'n ddigon ar gyfer 4 o bobl.

### Cynhwysion – y toes

4 coes cyw iâr  
400g o datws  
3 cenhinen wedi'u golchi – heb y dail trwchus  
1 winwnsyn bach, wedi'i sleisio  
3 gewin o arlleg  
Halen a phupur du i flasau ac olew olewydd

### Dull

1. Cynheswch y ffwrn – 210°C.
2. Torrwch y cennin yn ddarnau mawr.
3. Rhowch y tatws mewn tun rhostio mawr – peidiwch â thorri'r tatws. Rhowch ychydig o olew olewydd, halen a phupur dros y tatws a rhowch nhw yn y ffwrn i rostio am 20 munud.
4. Yna, tynnwch y tun o'r ffwrn a rhowch y winwnsyn, y garlleg a'r cennin yn y tun. Cymysgwch y llysiâu a rhowch y coesau cyw iâr ar y top.
5. Rhowch ychydig o olew olewydd a halen a phupur dros y gymysgedd a rhowch y tun yn y ffwrn.
6. Rhostiwch y cwbl am 45 munud.

### Geiriau

ar gyfer – <i>for</i>	winwnsyn = <i>nionyn</i>	ychydig – <i>a little</i>
digon – <i>enough</i>	– <i>onion</i>	tynnu – <i>(to) take</i>
cynhesu – <i>(to) warm</i>	gewin – <i>clove</i>	cymysgu – <i>(to) mix</i>
ffwrn = <i>popty</i> – <i>oven</i>	garlleg – <i>garlic</i>	cymysgedd – <i>mixture</i>
heb – <i>without</i>	olew olewydd – <i>olive oil</i>	y cwbl – <i>everything</i>
trwchus – <i>thick</i>	darn,-au – <i>piece,-s</i>	

## Cennin

Mae cennin yn symbol o Gymru.

Mae pobl yn gwisgo cennin ar Ddydd Gŵyl Dewi.

Mae pobl yn bwyta cawl cennin ar Ddydd Gŵyl Dewi hefyd.

Mae cennin yn dda i chi, medden nhw.

Mae John Addams-Williams yn tyfu cennin yn Sir Benfro.

Pan mae'r cwmni'n brysur, maen nhw'n codi 25 tunnell o gennin bob wythnos.

### Geiriau

cenhinen, cennin – *leek,-s*  
medden nhw – *so they say*  
tyfu – *(to) grow*  
cwmni – *company*  
prysur – *busy*  
codi – *(to) pick*  
tunnell – *ton*

# Dros y Byd

Mae Bryn Jones yn byw yng Ngwlad Pwyl. Mae o'n athro Saesneg efo cwmni Berlitz ...

## O le dach chi'n dod yn wreiddiol?

Dw i'n dod o bentre Talwrn, yn Sir Fôn, yn wreiddiol.

## Lle dach chi'n byw rŵan?

Dw i'n byw yn Poznań, yng Ngorllewin Gwlad Pwyl. Mae'r ddinas yn enwog am y cloc yn yr hen farchnad. Am hanner dydd mae dwy afr yn dod allan o'r cloc ac maen nhw'n ymladd.

## Beth ydy'ch gwaith chi?

Dw i'n dysgu Saesneg i gwmmi ieithoedd Berlitz.

## Beth dach chi'n hoffi wneud yn eich amser sbâr?

Mae gen i ddwy ferch fach, Weronika Dwynwen a Liwia Gwennlian. Maen nhw dan bedair oed, felly does dim llawer o amser sbâr! Dw i'n mwynhau mynd i nofio efo'r plant a mynd i weld pethau yn y ddinas.

Dw i wrth fy modd yn darllen llyfrau hanes a gwyllo pêl-droed.

## Sut dach chi'n dathlu Dydd Gŵyl Dewi?

Efo fy mam-yng-nghyfraith, Irena. Mae ei phen-blwydd hi ar Fawrth 1. Hoff flodyn Irena ydy'r cennin Pedr. Dw i'n hoffi coginio cawl cennin hefyd.

## Ers pryd dach chi'n byw yng Ngwlad Pwyl?

Dw i'n byw yma ers bron pedair blynedd. Ond wnes i symud i Poznań am y tro cynta yn 2008. Gwelais i hysbyseb yn **Golwg** am ddarlithydd Cymraeg yn y Brifysgol yma. Wnes i syrthio mewn cariad efo Martyna. Mae hi'n wraig i mi erbyn hyn.

## Beth dach chi'n hoffi am fyw yng Ngwlad Pwyl?

Mae'n brydferth iawn ac mae'r bobl yn gynnes. Dydy Gwlad Pwyl ddim yn lle llwyd a llwm. Mae'r dinasoedd yn llawn bywyd ac mae cefn gwlad yn hardd dros ben.

Mae gan y Pwyliaid ddywediad: "Ymwelydd yn y tŷ, Duw yn y tŷ". Mae'n golygu bod rhaid trin ymwelwyr efo'r parch mwya. Maen nhw'n trin tramorwyr fel hyn hefyd, yn enwedig tramorwr sy'n ceisio dysgu Pwyleg!

## Pa fath o fwyd dach chi'n bwytia yno?

Mae bwyd Pwylaidd yn hyfryd ac amrywiol iawn. Fy ffefryn ydy *Barszcz* – cawl betys coch. Yn draddodiadol, maen nhw'n tywallt y cawl yma o debot! Mae un deisen arbennig

dan ni'n cysylltu â Poznań – *Rogal Marciński*. Math o *croissant* ydy hi, wedi ei stwffio efo pethau melys. Mae'n boblogaidd iawn tua Tachwedd 11, Dydd Gŵyl Martin Sant, un o nawddseintiau dinas Poznań.

## Beth dach chi'n gollu am Gymru?

Cig moch, cwmni ffrindiau a gwyllo rygbi. Mae'r Chwe Gwlad a Chwpan y Byd ar y teledu.

## Beth sy fwy gwahanol?

Amseroedd bwyd! Mae "cinio" bob amser yn bryd poeth, tua dau neu dri o'r gloch yn y prynhawn. Mae swper bob amser yn bryd bach ar ôl saith o'r gloch fel arfer.

## Geiriau

darlithydd	– lecturer
llwm	– bleak
dywediad	– saying
ymwelydd, ymwelwyr	– visitor
golygu	– (to) mean
trin	– (to) treat
parch	– respect
tramorwr, tramorwyr	– foreigner, -s
amrywiol	– varied
tywallt	– (to) pour
nawddsant, nawddseintiau	– patron saint, -s
pryd (o fwyd)	– meal



## Geiriau

Gwlad Pwyl – Poland  
 efo = gyda – with  
 gorllewin – west  
 dinas – city  
 enwog – famous  
 gafr – goat  
 ymladd – (to) fight  
 cwmni – company  
 iaith, ieithoedd –

language, -s  
 mae gen i ... = mae ... 'da  
 fi ... – I've got ...  
 peth, -au – thing, -s  
 mam-yng-nghyfraith –  
 mother-in-law  
 hoff flodyn – favourite  
 flower



# Dulys (*Smyrnum olustratum*) Alexanders

Dach chi'n hoffi bwyta seleri?  
Os felly, beth am drïo dulys?  
Mae'n debyg i seleri ac mae'n  
dda i chi, medden nhw ...

**D**ulys ydy un o'r planhigion cyntaf i ymddangos yn y clawdd ar ddechrau'r flwyddyn ac mae'n eitha cyffredin ger glan y môr.

Mae'n blanhigyn eitha mawr. Erbyn diwedd yr haf, mae'n gallu tyfu i tua hanner metr o uchder.

Yn gynnar yn y flwyddyn, mae'r planhigyn yn llawer llai. Mae'r dail yn edrych yn wyrdd a glân.

Mae'r planhigyn yn dod o ardal Môr y Canoldir. Mae'n debyg bod y Rhufeiniaid wedi dod â'r planhigyn i Brydain.

## Geiriau

dulys – *Alexanders*  
os felly – *if so*  
tebyg – *similar*  
medden nhw – *so they say*  
ymddangos – *(to) appear*  
clawdd – *hedge*  
cyffredin – *common*  
uchder – *height*  
mae'n debyg – *it appears, apparently*  
Môr y Canoldir – *the Mediterranean Sea*  
y Rhufeiniaid – *the Romans*

## Bwyta dulys

Roedd y Rhufeiniaid yn bwyta dulys mewn salad ac mewn cawl, mae'n debyg. Mae'r goes yn debyg i goes seleri ond dydy hi ddim mor fawr â choes y seleri. Mae'r blas yn fwy siarp, a dydy llawer o bobl ddim yn hoffi'r blas.

Mae'n bosib bwyta rhannau eraill o'r planhigyn hefyd. Roedd pobl yn arfer bwyta'r blodau ifanc – maen nhw'n edrych yn debyg i flodfresych. Weithiau, mae pobl yn eu piclo nhw er mwyn eu cadw nhw dros y gaeaf. Fel arfer, mae'r blodau ar y planhigyn rhwng Ebrill a Mehefin.

Roedd pobl yn defnyddio sudd y dulys i lanhau clwyfau.

Mae'r dail yn llawn Fitamin C ac mae bwyta dulys yn help i dreulio bwyd, medden nhw.

Dach chi'n hoffi pannas? Wedi eu rhostio, efallai, efo cig eidion ar ddydd Sul? Wel, mae'n bosib defnyddio gwreiddiau dulys yn lle pannas.

## Geiriau

er mwyn – *in order*  
clwyf,-au – *wound,-s*  
treulio – *(to) digest*  
gwreiddyn, gwreiddiau – *root,-s*  
yn lle – *instead of*



## Mynachod

Mae'n debyg bod mynachod yn plannu dulys yn y mynachlogydd fel un o'r 'llysiau llesol'. Dyna pam dach chi'n gweld dulys yn tyfu wrth olion hen fynachlogydd a hen gestyll, efallai.

## Dulys ... neu ... seleri?

Roedd pobl yn bwyta dulys tan tua dechrau'r ddeunawfed ganrif, pan ddaeth seleri yn boblogaidd. Wedyn, dechreuodd pawb ddefnyddio seleri, ac anghofio am ddulys.

Beth am drïo bwyta dulys yn lle seleri y tro nesa – i weld beth dach chi'n feddwl ohono?

## Beth ydy dulys?

Mae dulys yn blanhigyn eitha mawr. Mae'n dod o ardal Môr y Canoldir. Yn aml, mae dulys yn tyfu wrth y môr. Mae'n bosib bwyta'r goes a'r blodau. Mae dulys yn blasu fel seleri – ond dydy pawb ddim yn hoffi'r blas. Mae dulys yn dda i chi, medden nhw. Mae Fitamin C yn y dail.

## Geiriau

dulys – *Alexanders*  
planhigyn – *plant*  
ardal – *area*  
Môr y Canoldir – *the Mediterranean Sea*  
tyfu – *(to) grow*  
blasu – *(to) taste*  
blas – *taste*  
medden nhw – *so they say*  
deilen, dail – *leaves*

## Geiriau

mynach,-od – *monk,-s*  
llesol – *beneficial*  
olion – *remains*  
mynachlog,-ydd – *monastery, monasteries*



Cyfres ddrama heddlu ydy **Bang**. Mae hi'n ddrama ddwyieithog. Yn yr ail gyfres, mae cymeriad newydd yn dod i orsaf yr heddlu yn Aberafan.

# Yn ôl gyda BANG!

**M**ae'r ddrama drosedd **Bang** yn ôl ar S4C. Mae dwy flynedd wedi pasio ers y digwyddiadau yn y gyfres gyntaf ac mae'r Ditectif Gina Jenkins (Catrin Stewart) a PC Luke Lloyd (Jack Parry-Jones) yn trio datrys achos newydd.

Y tro yma, mae cymeriad newydd yn dod i Aberafan. Morgan Riley ydy rheolwr newydd gorsaf heddlu Aberafan. Fo ydy bos Gina Jenkins a Luke Lloyd.

Mae cyfres o lofruddiaethau yn digwydd yn yr ardal. Rhaid i'r heddlu ddarganfod pwy sy'n gyfrifol. Morgan Riley sy'n arwain yr ymchwiliad.

Yr actor Dyfan Dwyfor sy'n actio Morgan Riley. Dydy Morgan ddim yn gymeriad neis iawn, meddai Dyfan! Yma, mae Dyfan Dwyfor yn ateb ein cwestiynau ni...

Mae'r gyfres newydd yn dechrau ar S4C nos Sul, 23 Chwefror.

Lluniau: S4C

## Morgan a fi!

### Pa fath o gymeriad ydy Morgan Riley?

Mae o'n 'control freak', unig a chyfrwys.

### Morgan Riley ydy rheolwr newydd gorsaf yr heddlu yn Aberafan – pa fath o reolwr ydy o?

Mae o'n eitha ifanc i fod yn y rôl yma yn yr heddlu. Mae o'n gwybod sut i drin pobl yn y gwaith ond mae o'n defnyddio pobl i gael beth mae o isio.

### Beth oedd yn apelio am actio yn Bang?

Roedd y gyfres gyntaf yn gyffrous iawn ac yn llwyddiant mawr. Felly, pan ges i'r cynnig i fod yn rhan o gyfres dau, ro'n i wrth fy modd.

### Beth sy'n dda am actio Morgan?

Does dim llawer o bethau hoffus am Morgan. Dw i'n cael gwisgo siwt ar y set a dw i'n cael gwneud fy ngwallt yn neis – ond does 'na ddim llawer o bethau eraill sy'n neis iawn am Morgan!

### Mae'r ddrama'n digwydd yn ardal Port Talbot. Dach chi'n hoffi ffilmio ym Mhort Talbot?

Mae pobl Port Talbot yn gyfeillgar iawn. Dw i'n mwynhau ffilmio yn y dref yn fawr iawn. Dw i wrth fy modd yn rhedeg – mae glan môr Aberafan yn berffaith ar gyfer rhedeg. Mae'r machlud yn hyfryd iawn yma. Hefyd, mae 'na ddiagon o sglodion blasus ym Mhort Talbot!

### Geiriau

cyfres – series  
 dwyieithog – bilingual  
 ail – second  
 cymeriad – character  
 trosedd – crime  
 datrys – (to) solve  
 achos – case  
 lofrudd,-iaethau – murder,-s  
 darganfod – (to) discover  
 cyfrifol – responsible  
 cyfrwys – sly  
 cynnig – offer  
 hoffus – likeable  
 ymchwiliad – inquiry  
 cyfeillgar – friendly  
 machlud – sunset





## Y gyfres newydd

### Beth sy'n digwydd yn y gyfres newydd o Bang?

Mae mwy nag un stori yn y gyfres yma. Mae DI Gina Jenkins a PC Luke Lloyd yn trio datrys achos newydd. Mae dyn 30 oed yn cael ei lofruddio ar lan y môr yn Aberafan. Yna, mae llawer o lofruddiaethau eraill yn digwydd yn yr ardal.

Does gan y gwyliwr ddim syniad beth sy'n digwydd nesa. Mae 'na sawl tro yn y gynffon. Does neb yn siŵr pwy i'w drystio. Pwy dach chi'n hoffi? Pwy dach chi ddim yn hoffi? Mae'n anodd gwybod.

### Oedd hi'n anodd i chi actio Morgan?

Dw i ddim wedi actio cymeriad tebyg i Morgan o'r blaen. Mae chwarae rôl efo statws mor uchel yn her. Morgan ydy bôs yr ymchwiliad. Mae 'na stori arall hefyd sy'n rhan o gymeriad Morgan. Mae hynny'n dod â themâu dwys iawn i mewn i fywyd Morgan. Roedd portreadu'r rheiny'n anodd.

### Dach chi'n debyg i Morgan mewn unrhyw ffordd?

Mae gan Morgan lawer iawn o gyfrinachau ac ochr dywyll iawn, felly dw i ddim yn debyg iddo fo – gobeithio!

### Beth ydy'ch hoff olygfa yn y gyfres?

Mae 'na olygfa tua'r diwedd rhwng Morgan a Sam (Jacob Ifan) sy'n troi'n dreisgar. Sam ydy brawd Gina Jenkins. Roedd ffilmio'r olygfa yna'n grêt. Dw i'n edrych ymlaen at ei gwyllo hi ar y sgrin.

### Mae Bang yn ddwyieithog – pa mor anodd ydy hynny?

Mae'n brofiad ac yn gyfle gwych, ond mae'n heriol weithiau! Mae'ch meddwl chi'n gorfod mynd yn ôl a 'mlaen rhwng y Gymraeg a'r Saesneg yn aml. Hefyd dach chi'n gorfod gwneud hynna mewn 'police talk'.

## Dyma Dyfan Dwyfor a Bang 2.

Mae Dyfan Dwyfor yn actor.

Mae o'n dod o Gricieth, yng Ngwynedd, yn wreiddiol. Rŵan, mae o'n byw yn Llundain.

Roedd o'n actio yn y gyfres

**Rownd a Rownd** ar S4C.

Mae o wedi actio mewn ffilmiau Cymraeg hefyd.

Rŵan, mae o'n actio yn y gyfres

**Bang.**

Drama drosedd ydy **Bang** ac mae'n digwydd ym Mhort Talbot.

Mae **Bang** yn gyfres ddwyieithog.

Mae Dyfan Dwyfor yn actio pennaeth yr heddlu, Morgan Riley.

Mae o'n arwain yr ymchwiliad ond dydy o ddim yn berson neis iawn, meddai Dyfan.

### Geiriau

cyfres – series  
trosedd – crime  
digwydd – (to) happen  
dwyieithog – bilingual  
pennaeth – head  
arwain – (to) lead  
ymchwiliad – inquiry  
meddai – said

## Dyma Bort Talbot.

Mae Port Talbot ar lan Bae Abertawe.

Mae'n enwog am y gwaith dur mawr iawn yno.

Yn yr 1960au, dyma waith dur mwya Ewrop, efo 18,000 o weithwyr. Mae'n fawr o hyd – mae 4,000 o bobl yn gweithio yno rŵan.

Roedd hen abaty lle mae'r gwaith dur heddiw.

Mae Aberafan yn rhan o Bort Talbot. Mae traeth da iawn yno ac mae pobl yn syrffio yno.

### Geiriau

ar lan – on the shore of  
enwog – famous  
dur – steel  
mwya – largest

o hyd – still  
hen abaty – an old abbey  
rhan – part

Dyma golofn newydd gan Brân Devey o Ramblers Cymru. Mae o'n rhoi syniadau i ni am leoedd da i fynd am dro yn ystod Blwyddyn yr Awyr Agored 2020. Y tro yma, mae o'n mynd â ni i'r Rhaeadr Fawr, ger Abergwyngregyn, yng Ngwynedd...

# Dewch am dro ...



**G** yda llawer o law yn disgyn yr adeg yma o'r flwyddyn, un o'r lleoedd mwya dramatig i ymweld â nhw ydy'r Rhaeadr Fawr, ger Abergwyngregyn. Mae'r rhaeadr wrth droed mynyddoedd y Carneddau, yn Eryri.

Dydy'r rhaeadr ddim yn bell o briffordd yr A55; mae'n ddigon hawdd dod o hyd iddi hi.

Mae dau opsiwn i gyrraedd y rhaeadr. Mae un yn hawdd ac mae'r llall ychydig yn fwy anodd!

## Y llwybr hawdd

Yr opsiwn cynta ydy gyrru drwy'r pentref i fyny at y maes parcio a cherdded i'r rhaeadr ac yn ôl.

Pan o'n i'n blentyn roedden ni'n gwneud hyn fel teulu. Roedd y daith tua 2 filltir a hanner ac roedd hyn yn haws i ni'r plant na'r daith arall. Ond pan oedden ni'n cerdded ar hyd y llwybr, roedd fy mrawd yn arfer swnian – "Ydan ni yna eto?"!

Mae'r daith yn reit syml ac yn addas i deuluoedd, neu gerddwyr mwy hamddenol.

## Y llwybr arall

Yr ail opsiwn ydy dechrau cerdded o bentref Abergwyngregyn a mynd ar gylchdaith i fyny'r cwm at y rhaeadr. Mae'n bosib cerdded yn ôl ar hyd ochr arall y cwm – dach chi'n codi i tua 300m. Mae'n daith o tua 4 milltir a hanner ac mae'n cymryd tua 2 awr a hanner. Mae'r golygfeydd yn hardd iawn.

### Geiriau

colofn – *column*  
awyr agored – *open air*  
y tro yma – *this time*  
mynd â – *(to) take*  
disgyn – *(to) fall*  
dod o hyd iddi hi – *(to) find it*  
y llall – *the other one*  
haws – *easier*  
swnian – *(to) moan, whine*  
addas – *suitable*  
cylchdaith – *circular path*  
golygfa, golygfeydd – *view, -s*

## Gair o gyngor:

- Os dach chi'n mynd at y rhaeadr o'r maes parcio ac yna'n mynd yn ôl i'r maes parcio, does dim angen map. Ond os dach chi isio gwneud y gylchdaith hirach mae'n syniad da mynd â map efo chi.
- Cofiwch wisgo esgidiau addas a mynd â chot

law a haenau o ddillad cynnes.

- Edrychwch ar y tywydd cyn gadael – ac ewch â'r offer cywir ar gyfer y tywydd.

### Geiriau

cylchdaith – *circular path*  
addas – *suitable*  
haen,-au – *layer,-s*  
offer – *equipment*

## Beth dach chi'n weld?

Ar ôl glaw trwm, mae'r afon yn llawn dŵr ac mi fedrwch chi weld y dŵr yn chwistrellu oddi ar y rhaeadr yn bell cyn i chi gyrraedd.

Mae'r rhaeadr 37 metr o uchder ac yn drawiadol iawn.

Wrth i chi gerdded yn nes at y rhaeadr mae'n rhaid troedio'n ofalus achos mae'r llwybr yn medru bod yn llithrig. Cadwch lygaid allan am fywyd gwyllt – dach chi mewn gwarchodfa natur.

Mae'n lle hyfryd i fynd iddo drwy'r tymhorau, gyda'r goedwig islaw a bywyd natur yn newid drwy'r flwyddyn. Mae'n medru bod yn brysur ar benwythnosau yn ystod gwyliau'r haf.

Dw i'n bwriadu mynd â fy merch fach yno am y tro cynta pan dw i'n mynd i'r gogledd yn y dyfodol agos.

### Geiriau

chwistrellu - *(to) spout, spray*  
trawiadol – *striking*  
troedio – *(to) step*  
islaw – *below*

## Ble mae Abergwyngregyn?

Mae Abergwyngregyn rhwng Bangor a Chonwy, yng Ngwynedd.

Mae'r pentre ger afon Menai. Dach chi'n gweld Ynys Môn o'r pentre.

Mae Abergwyngregyn yn lle pwysig yn hanes Cymru.

Roedd llys y Brenin, Llywelyn Fawr yn y pentre.

Mae'r rhaeadr yn enwog hefyd – ei henw hi ydy'r Rhaeadr Fawr.

Mae hi'n 37 metr o'r top i'r gwaelod.

Mae'r rhaeadr mewn gwarchodfa natur. Mae'n bosib gweld llawer o fywyd gwyllt yno.


### Geiriau

ger – *near*  
pwysig – *important*  
llys – *court*  
rhaeadr – *waterfall*  
enwog – *famous*  
gwaelod – *bottom*  
gwarchodfa natur – *nature reserve*  
bywyd gwyllt – *wildlife*

# Croesair

Mae rhai o'r atebion yn y rhifyn yma o lingo newydd.

Cofwch - un llythren ydy Ch, Ff, Ll a Th.



Mae'r atebion ar y gwaelod.


## Ar draws

1. Symbolau o Gymru a bwyd ar Ddydd Gŵyl Dewi. (6)
6. ... ar y maen yn y De ond cacennau cri yn y Gogledd! (4)
7. Gwlad Mozart - efo mynyddoedd uchel a sgïo. (7)
8. Mae o wedi mynd. (3)
9. Gair arall am adain. (5)
11. Enw mab Emma Walford. (4)
12. Dych chi'n gwneud hon gyda brics neu gerrig. (3)
13. Y môr mawr rhwng Iwerddon a'r Unol Daleithiau. (6)
14. Nid o dan, ond \_\_ ben. (2)
16. Gair arall am ddydd. (7)

## I lawr

2. Dych chi'n rhoi enw i rywbeth. (4)
3. Mae gan hwn Gader uchel gerllaw Dolgellau (cliw: mynydd). (5)
4. 'Bow-wow' y plant. (2)
5. Nid Gogledd ond \_\_. (2)
6. \_\_ un ydy'r gorau? (2)
8. Goriad yn y Gogledd, \_\_\_\_\_ yn y De. (5)
9. Atishw! Dych chi'n cael hwn yn y gaeaf, efallai. (6)
10. Nid fake news ond newyddion \_\_\_\_\_. (4)
11. Yr \_\_\_\_\_ - hoff wlad mam ll ar draws. (5)
15. Rhyfedd. (2)

**Idiom**  
lingo newydd  
efo Mumph



Weithiau, dw i'n gwneud rhywbeth heb help.

Felly, dw i'n gwneud rhywbeth ar fy mhen fy hun.

Ond, wrth gwrs, mae Mumph yn gweld pethau'n wahanol.

### Geiriau

ar fy mhen fy hun - on my own, by myself  
weithiau - sometimes  
rhywbeth - something  
peth,-au - thing,-s  
gwahanol - different

Ar Draws: 1. Cennin; 6. Pice; 7. Awstria; 8. Aeth; 9. Asgell; 11. Efan; 12. Wal; 13. Iwerydd; 15. Ar; 16. Diwrnod. I Lawr: 2. Enwi; 3. Idris; 4. Ci; 5. De; 6. Pa; 8. Allwedd; 9. Annwyd; 10. Gwir; 11. Eidal; 15. Od.

Atebion



Theatr  
Genedlaethol  
Cymru



# TYLWYTH

GAN / BY DAF JAMES



Dewch i weld drama newydd, dyner a direidus gan un o ddramodwyr mwyaf cyffrous Cymru.

Come see this witty and compelling new play by one of Wales' most exciting playwrights.



Mae Sibrwd, yr ap mynediad iaith, ar gael ym mhob perfformiad. / Sibrwd, the language access app, will be available at each performance



Bydd perfformiadau gyda chapsynau yn Theatr y Sherman a Theatr Clwyd. / There are captioned performances at Sherman Theatre and Theatr Clwyd.

Ar daith / On tour:

10.03.2020 – 04.04.2020

SGYRSIAU CYN Y SIOE I DDYSGWYR CYMRAEG LEFEL UWCH  
PRE-SHOW TALKS FOR WELSH LEARNERS AT UWCH/ADVANCED LEVEL

**Theatr y Sherman, Caerdydd**  
Sherman Theatre, Cardiff  
12.03.2020, 18.00

**Galeri, Caernarfon**  
18.03.2020, 18.30

**Canolfan y Celfyddydau**  
Aberystwyth Arts Centre  
20.03.2020, 18.30

**Ffwrnes, Llanelli**  
24.03.2020, 18.30

**Hafren,**  
Y Drenewydd / Newtown  
26.03.2020, 18.30

**Theatr Mwldan,**  
Aberteifi / Cardigan  
28.03.2020, 18.30

**Pontio, Bangor**  
31.03.2020, 18.30

**Theatr Clwyd**  
03.04.2020, 18.30



dysgucymraeg.cymru  
learnwelsh.cymru